# Cydlynu rheoli ardaloedd wedi eu plannu

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cydlynu rheoli ardaloedd wedi eu plannu. Bydd hyn yn cynnwys rheoli cymunedau planhigion unwaith y maent wedi cael eu sefydlu. Gallai'r ardaloedd fod wedi cael eu creu trwy blannu neu adfywio naturiol a gallai gynnwys coetir, perllannau, parciau, tiroedd, gerddi neu gynefinoedd bywyd gwyllt.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad perthnasol yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Bydd angen gwybodaeth dechnegol arnoch, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â phlanhigion, cynefinoedd a gofynion sy'n cystadlu o ran defnydd o dir a rheolaeth. Gallai'r rheiny sy'n gweithredu'r cynllun gynnwys llafur uniongyrchol, contractwyr neu wirfoddolwyr.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio'r cynlluniau a'r manylebau ar gyfer manylion y gwaith gofynnol er mwyn rheoli ardaloedd wedi eu plannu
2. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r safle a'r gweithgaredd gofynnol
3. cydlynu asesiad amgylcheddol o'r safle cyn dechrau gwaith
4. cydlynu'r gwaith o sefydlu dulliau gwaith ar gyfer rheoli ardaloedd wedi eu plannu a chadarnhau ei fod yn cael ei gyfathrebu'n glir i bawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
5. nodi a sefydlu argaeledd adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith
6. sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw mewn cyflwr diogel a chywir
7. cydlynu'r gwaith o brosesu deunydd ailgylchu neu waredu gwastraff yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac arferion sefydliadol
8. cydlynu'r gweithgareddau rheoli gofynnol ar gyfer ardaloedd wedi eu plannu a chadarnhau eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
9. monitro'r gwaith o reoli'r ardaloedd wedi eu plannu ar adegau addas i asesu cyflwr planhigion a chydymffurfio â'r cynllun
10. cymryd camau priodol pan fydd monitro'n datgelu problemau
11. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith neu wedi eu heffeithio ganddo
12. cadarnhau bod polisïau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol a gofynion asesu risg wedi eu rhoi ar waith ar draws eich maes cyfrifoldeb
13. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u storio fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
sut i nodi peryglon ac asesu risg
2.
pwysigrwydd cydlynu asesiad amgylcheddol o'r safle cyn dechrau gwaith a'r canfyddiadau a allai effeithio ar y gwaith arfaethedig
3. pwysigrwydd cydlynu'r gweithgareddau rheoli gofynnol ar gyfer ardaloedd wedi eu plannu a chadarnhau bod y gweithgareddau wedi eu cwblhau yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
4.
y mathau gwahanol o ardaloedd wedi eu plannu a'u hanghenion gwahanol ar gyfer rheoli
5.
canlyniadau posibl rheoli ardaloedd wedi eu plannu'n wael
6. effaith bosibl gweithgareddau rheoli ar yr ardal gyfagos a'r amgylchedd
7. y graddfeydd amser ar gyfer gwneud gweithgareddau rheoli gwahanol
8. y mathau o offer sy'n ofynnol ar gyfer rheoli ardaloedd wedi eu plannu a sut i gydlynu ei ddefnydd
9. pwysigrwydd cadarnhau bod yr offer gofynnol yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw'n ddiogel ac yn gywir a'i storio'n ddiogel
10. y defnydd diogel a chywir o adnoddau wrth reoli ardaloedd wedi eu plannu
11. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer trin, cludo a gwaredu gwastraff
12. cyfnodau datblygiad planhigion
13. y dulliau rheoli y gellir eu defnyddio ar gyfer rheoli plâu, clefydau a chwyn wrth gydlynu'r gwaith o reoli ardaloedd wedi eu plannu
14. y gofynion ar gyfer maethynnau a gwlybaniaeth a sut gellir addasu'r rhain i hybu iechyd planhigion
15. dulliau o asesu cyflwr y pridd a statws maeth
16. symptomau diffyg maeth
17. effeithiau macro a phrif ficro-faethynnau ar iechyd a thwf planhigion
18. effeithiau llygrwyr, amodau hinsawdd a'r berthynas rhwng pridd/dŵr ar dwf planhigion
19. egwyddorion a dulliau tocio a'i effeithiau ar dwf planhigion

20. egwyddorion adnewyddu planhigion
21. dulliau monitro a gwerthuso llwyddiant rheoli planhigion
22. problemau posibl a allai godi wrth gydlynu'r gwaith o
23. reoli ardaloedd wedi eu plannu a'r camau i'w cymryd
24.
terfynau eich gallu a'ch awdurdod a ble i gael cyngor
25.
pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut i wneud hyn
26. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau'r cwmni
27. y cofnodion sydd angen eu cadw a phwysigrwydd eu cwblhau

## Cwmpas/Ystod

A. cydlynu'r gweithgareddau rheoli canlynol mewn ardaloedd wedi eu plannu:

(i) tocio/brigdorri/hyfforddi
(ii) teneuo
(iii) clymu i mewn
(iv) adnewyddu
(v) tynnu
(vi) disodli
(vii) chwistrellu
(viii) rheoli chwyn
(ix) rheoli plâu
(x) rheoli clefydau
(xi) bwydo
(xii) taenu
(xiii) gwella pridd
(xiv) strimio
(xv) torri gwair

B. Monitro'r canlynol tra'n rheoli ardaloedd wedi eu plannu:

(i) ansawdd y canlyniadau
(ii) cadw at y diben gwreiddiol
(iii) dulliau gwaith ac ymarfer
(iv) defnydd o adnoddau
(v) amserlennu
(vi) unrhyw gamau adfer
(vii) effaith amgylcheddol

## Geirfa

Mae planhigion yn cynnwys glaswellt, planhigion prennaidd, blodau, planhigion ar gyfer gwely blodau a bywlys ac ati.

Manylebau: yn cynnwys darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS) a chanllawiau cynhyrchwyr, polisïau sefydliadol.

Cydlynu rheoli ardaloedd wedi eu plannu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS34 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwr, Gofalwr Tir, Tirluniwr, Ceidwad Gwyrdd, Rheolwr Parc |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | gardd; cynnal; ardaloedd wedi eu plannu; parc; tir |